COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF.DLI081

Amseru: Brys

Teitl: Gwerthu Cyn-Adeiladau Diangen yr Heddlu ar draws Ardal yr Heddlu – Cam 2

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid/Caffael

Crynodeb Gweithredol:
Cynigir gwerthiant cytuniad preifat ar gyfer dau eiddo ar ran SCHTh, gyda chefnogaeth Syrfewyr Siartredig BP a Chyfreithwyr Carreg Law. Bydd pob cynnig yn cael ei adolygu a'i asesu ar sail ei gynnig ariannol. Bydd pob eiddo'n cael eu cynnig i Awdurdodau Lleol cyn iddynt fynd ar y farchnad agored. Mae safle Tyddewi'n cynnwys 2 barsel o dir - y parsel cefn yn cynnwys dau garej a fydd yn cael eu cynnig ar werth i'r tenantiaid presennol ar raddfa gyfredol y farchnad. Y safle arall yw cyn-dŷ'r heddlu yn Heol Tyn y Fron, Aberystwyth.

Argymhelliad:

Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo gwerthu i'r cynnig sy'n sgorio uchaf drwy Gytuniad Preifat. Mae gwerthiant cytuniad preifat yn digwydd wrth werthu eiddo diriaethol rhwng dau barti sy'n cytuno ar delerau cyn i'r gwerthiant gael ei gwblhau. Bydd y prynwr a'r gwerthoedd ariannol arfaethedig yn cael eu dogfennu'n ffurfiol i'w cymeradwyo gan y CHTh cyn i'r gwerthiant gael ei gynnig neu ei gwblhau.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn ac fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwyf yn cymeradwyo'r cais uchod / ~~Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod~~ / Rwyf yn nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad (dileer fel sy'n briodol)

Llofnod: **Dyddiad:** 16/07/2018